# ADRODDIAD PWNC
# CYFRIFIAD 2011: SGILIAU IAITH GYMRAEG

## Cyflwyniad

Y Cyfrifiad cenedlaethol yw'r brif ffynhonnell o ran gwybodaeth statudol am yr iaith Gymraeg, a wnaed gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn fwyaf diweddar yn 2011. Mae'r ystadegau a gyhoeddwyd gan SYG ar gael ar gyfer ardaloedd lleol yng Nghymru sy'n dangos nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg a'r rheini â sgiliau iaith Gymraeg.

Yng Nghyfrifiad 2011, gofynnwyd y cwestiwn 'A allwch ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?' - ac roedd modd ateb drwy dicio un neu ragor o bum blwch (un i bob categori ac un ar gyfer 'Dim un o'r rhain') mewn unrhyw gyfuniad. Dim ond yng Nghymru y gofynnwyd y cwestiwn hwn, a chyflwynir atebion ar gyfer pobl 3 oed a throsodd. Nid oedd y Cyfrifiad yn casglu gwybodaeth ynghylch pa mor rhugl ydynt na pha mor aml y maent yn defnyddio'r Gymraeg.

Yng Nghymru, cafwyd gostyngiad yn nifer a chyfran y bobl 3 oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg, a oedd wedi gostwng o 20.8 y cant yn 2001 i 19.0 y cant yn 2011. Yn Abertawe, roedd 13.4% yn gallu siarad Cymraeg yn 2001, ond gostyngodd hyn i 11.4% yn 2011. Yn ei Bwletin Ystadegol SB 118/2012, mae Llywodraeth Cymru'n awgrymu y cafwyd gostyngiad oherwydd newidiadau demograffig yn y boblogaeth, mudo a newidiadau i sgiliau pobl rhwng Cyfrifiadau. Er bod y boblogaeth wedi cynyddu, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru wedi gostwng o 582,000 yn 2001 i 562,000 yn 2011. Yn Abertawe, gostyngodd nifer y siaradwyr Cymraeg o 28,900 yn 2001 i 26,300 yn 2011.

## Sgiliau iaith Gymraeg yn ôl oedran

Mae newidiadau mewn sgiliau iaith Gymraeg rhwng Cyfrifiadau 2001 a 2011 yn amrywio ym mhob grŵp oedran. Yng Nghymru, cafwyd cynnydd sylweddol ar gyfer plant iau (3-4 oed), gostyngiad bach ar gyfer oedolion rhwng 20 a 44 oed, ond cafwyd gostyngiadau ar gyfer grwpiau oedran eraill. Cafwyd cynnydd yng nghyfran y plant rhwng 3 a 4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg o 18.8% yn 2001 i 23.3% yn 2011. Yn Abertawe, gellir gweld patrwm tebyg o ran cyfran y plant 3-4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg, a gynyddodd o 10.5% yn 2001 i 14.6% yn 2011. Cafwyd cynnydd bach yn y grŵp oedran 5-15 oed yn Abertawe, a gynyddodd o 25.2% yn 2001 i 26.0% y 2011.

## Amrywiadau lleol yn Abertawe: sgiliau iaith Gymraeg

Yng Nghyfrifiad 2001, roedd gan ward Mawr y ganran uchaf o bobl sy'n gallu *siarad, darllen ac ysgrifennu* Cymraeg, sef 35.8%, a St. Thomas oedd â'r ganran isaf yn Abertawe (4.4%). O ran niferoedd, roedd gan Dreforys y nifer mwyaf o breswylwyr a oedd yn gallu *siarad, darllen ac ysgrifennu* Cymraeg (1,657) a De Cilâ oedd â'r nifer lleiaf (169), ond mae maint y boblogaeth yn ffactor sylweddol. Erbyn 2011, Mawr yw'r ward â'r ganran uchaf o breswylwyr sy'n gallu *siarad, darllen ac ysgrifennu* Cymraeg o hyd, er bod y ganran honno wedi gostwng i 29.3%, a chanran Townhill oedd yr un isaf (3.7%). De Cilâ yw'r ward â'r nifer isaf o breswylwyr sy'n gallu *siarad, darllen ac ysgrifennu* Cymraeg (101), ac mae gan Lansamlet y nifer uchaf o breswylwyr gyda'r sgiliau hynny (1,367).

## Dim sgiliau Cymraeg[1]

Yn 2001, roedd gan ward Mawr y ganran isaf o breswylwyr â *dim sgiliau* Cymraeg (43.7%), o'i gymharu â ward St Thomas a oedd â'r ganrif uchaf (87.1%). O ran niferoedd, roedd gan ward Mawr y nifer isaf o bobl *heb sgiliau* Cymraeg (764) yn 2001, ac roedd gan Dreforys y nifer uchaf (12,070). Yn 2011, roedd gan ward Mawr hefyd y ganran isaf o breswylwyr *heb sgiliau* Cymraeg (47.9%), ac roedd gan Townhill y ganran uchaf (89.5%). Roedd gan ward Mawr hefyd y nifer lleiaf o breswylwyr *heb sgiliau* Cymraeg yn 2011 (858), ac roedd gan ward y Castell y nifer mwyaf (13,521).

Mae ffigyrau 1-4 ar y ddwy dudalen nesaf yn y nodyn briffio hwn yn darparu cyfres o fapiau sy'n dangos yr amrywiaeth yn wardiau Abertawe o ran cyfrannau'r bobl â sgiliau iaith Gymraeg a heb sgiliau Cymraeg, gan ddefnyddio ystadegau o Gyfrifon 2001 a 2011. Dilynir hyn gan set o Atodiadau (1-4) sy'n dangos ffigurau lefelau'r wardiau yn ôl eu safleoedd ar dablau.

## Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20[2]

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru'n ffynhonnell wybodaeth ystadegol arall o ran yr iaith Gymraeg. Cynhelir yr Arolwg Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru (LlC), ac mae'n dilyn pum arolwg a gomisiynwyd yn flaenorol gan LlC a thri o'i gyrff a noddir (Cyfoeth Naturiol Cymru, Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru).

Roedd blwyddyn ddiweddaraf yr Arolwg Cenedlaethol, a gynhaliwyd ar gyfer LlC gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), o ddechrau mis Ebrill 2019 i ddiwedd mis Mawrth 2020. Roedd yn cynnwys cynnal 12,400 o gyfweliadau ar gyfer pobl 16 oed ac yn hŷn, wedi'i seilio ar sampl a ddewiswyd ar hap gan ddefnyddio cyfeiriadau preswyl ar draws Cymru.

Mae cwmpas y cwestiwn yn wahanol i gwestiwn y Cyfrifiad oherwydd ei fod yn nodi pa mor aml a pha mor rhugl y mae pobl yn siarad Cymraeg, sy'n golygu na ellir cymharu'r ffynonellau'n uniongyrchol.

Yn arolwg 2019-2020, dywedodd 8% o'r ymatebwyr yn Abertawe eu bod yn gallu siarad Cymraeg, o'i chymharu â chyfartaledd Cymru, sef 16%. Nododd 37% o ymatebwyr yn Sir Gaerfyrddin eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ac mae'r ganran yn uwch eto yn rhai siroedd yng ngogledd Cymru (Gwynedd 64%, Sir Fôn 55%). Dywedodd 14% o ymatebwyr yn Abertawe eu bod yn gallu deall Cymraeg llafar (Cymru: 23%) Dywedodd 11% o ymatebwyr yn Abertawe eu bod yn gallu darllen Cymraeg (Cymru: 18%) a dywedodd 9% eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg (Cymru: 17%). Dywedodd 4% o ymatebwyr yn Abertawe eu bod yn defnyddio'r iaith Gymraeg fel rhan o fywyd pob dydd (Cymru: 10%).


*Diweddarwyd Awst 2020*

*Os hoffech chi wybod rhagor am ystadegau'r iaith Gymraeg yn Abertawe, cysylltwch â'r canlynol:*


**Cyngor Abertawe - Gwybodaeth, Ymchwil a Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol**
Uned Cyflwyno Strategol, Cyfarwyddiaeth Adnoddau, y Ganolfan Ddinesig, Abertawe SA1 3SN
Ffôn: 07970 610583. E-bost: ymchwil@abertawe.gov.uk
Gwefan: www.abertawe.gov.uk/cyfrifiad

[1] Yng Nghyfrifiad 2011, nodwyd y canlyniadau hyn fel 'Dim gwybodaeth o'r Gymraeg' ond fe'u henwir yn 'Dim sgiliau Cymraeg' yng Nghyfrifiad 2011. Maent yn gwbl gymharol.
[2] Mae lefelau amrywiol o fanylder sy'n perthyn i ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol. Edrychwch ar y tablau llawn i gael rhagor o wybodaeth lyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2019-i-mawrth-2020


## Ffigyrau 1-4: Ystadegau'r iaith Gymraeg (Cyfrifiad 2001 a 2011), Abertawe fesul Ward




*Ffynhonnell: Tabl Cyfrifiad 2001 KS025 - Gwybodaeth am y Gymraeg*



*Ffynhonnell: Tabl Cyfrifiad 2011 KS207WA - sgiliau iaith Gymraeg*


Wardiau Etholiadol
01 - Llandeilo Ferwallt
02 - Bonymaen
03 - Y Castell
04 - Clydach
05 - Y Cocyd
06 - Cwmbwrla
07 - Dyfnant
08 - Fairwood
09 - Gorseinon
10 - Gŵyr
11 - Tregŵyr
12 - Gogledd Cilâ
13 - De Cilâ
14 - Pontybrenin
15 - Glandŵr
16 - Llangyfelach
17 - Llansamlet
18 - Casllwchwr Isaf
19 - Mawr
20 - Mayals
21 - Treforys
22 - Mynyddbach
23 - Newton
24 - Ystumllwynarth
25 - Penclawdd
26 - Penderi
27 - Penllergaer
28 - Pennard
29 - Penyrheol
30 - Pontardulais
31 - Sgeti
32 - St. Thomas
33 - Townhill
34 - Uplands
35 - Casllwchwr Uchaf
36 - West Cross
Ffig. 3 Dim sgiliau Cymraeg
Cyfrifiad 2001, % Abertawe fesul Ward [36]
43.7% - 54.5% [2]
54.5% - 65.4% [3]
65.4% - 76.2% [9]
76.2% - 87.1% [22]
Cyngor Abertawe
Swansea Council
Ⓗ Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2019] OS [100023509]
Ffynhonnell: Tabl Cyfrifiad 2001 KS025 - Gwybodaeth am y Gymraeg


Wardiau Etholiadol
01 - Llandeilo Ferwallt
02 - Bonymaen
03 - Y Castell
04 - Clydach
05 - Y Cocyd
06 - Cwmbwrla
07 - Dyfnant
08 - Fairwood
09 - Gorseinon
10 - Gŵyr
11 - Tregŵyr
12 - Gogledd Cilâ
13 - De Cilâ
14 - Pontybrenin
15 - Glandŵr
16 - Llangyfelach
17 - Llansamlet
18 - Casllwchwr Isaf
19 - Mawr
20 - Mayals
21 - Treforys
22 - Mynyddbach
23 - Newton
24 - Ystumllwynarth
25 - Penclawdd
26 - Penderi
27 - Penllergaer
28 - Pennard
29 - Penyrheol
30 - Pontardulais
31 - Sgeti
32 - St. Thomas
33 - Townhill
34 - Uplands
35 - Casllwchwr Uchaf
36 - West Cross
Ffig. 4 Dim sgiliau Cymraeg
Cyfrifiad 2011, % Abertawe fesul Ward [36]
47.9% - 58.3% [2]
58.3% - 68.7% [1]
68.7% - 79.1% [10]
79.1% - 89.5% [23]
Cyngor Abertawe
Swansea Council
Ⓗ Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2019] OS [100023509]
Ffynhonnell: Tabl Cyfrifiad 2011 KS207WA - sgiliau iaith Gymraeg

**Atodiad 1: Sgiliau iaith Gymraeg fesul ward yn Abertawe yng Nghyfrifiad 2001** (o'r isaf i'r uchaf)

| Cyfrifiad 2001: gwybodaeth am y Gymraeg | Pobl 3 oed ac yn hŷn | Siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | Siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | Safle (yn ôl %) |
|---|---|---|---|---|
| **ENW'R WARD** | **Cyfrif** | **Cyfrif** | **Canran** | |
| St. Thomas | 6,142 | 267 | 4.4 | 1 |
| Townhill | 8,082 | 391 | 4.8 | 2 |
| Penderi | 10,459 | 519 | 5.0 | 3 |
| Glandŵr | 5,888 | 348 | 5.9 | 4 |
| Y Castell | 11,675 | 705 | 6.0 | 5 |
| Cwmbwrla | 7,923 | 534 | 6.7 | 6 |
| West Cross | 6,333 | 435 | 6.9 | 7 |
| Bonymaen | 6,114 | 435 | 7.1 | 8 |
| Ystumllwynarth | 4,197 | 299 | 7.1 | 9 |
| Pennard | 2,598 | 185 | 7.1 | 10 |
| Dyfnant | 4,540 | 325 | 7.2 | 11 |
| Llandeilo Ferwallt | 3,252 | 237 | 7.3 | 12 |
| Gogledd Cilâ | 3,358 | 248 | 7.4 | 13 |
| Gŵyr | 3,554 | 264 | 7.4 | 14 |
| De Cilâ | 2,245 | 169 | 7.5 | 15 |
| Y Cocyd | 12,179 | 1,008 | 8.3 | 16 |
| Mayals | 2,781 | 232 | 8.3 | 17 |
| Uplands | 13,069 | 1,104 | 8.5 | 18 |
| Mynyddbach | 8,506 | 728 | 8.6 | 19 |
| Sgeti | 13,486 | 1,160 | 8.6 | 20 |
| Newton | 3,091 | 275 | 8.9 | 21 |
| Fairwood | 2,711 | 243 | 9.0 | 22 |
| Treforys | 16,192 | 1,657 | 10.2 | 23 |
| Gorseinon | 3,146 | 329 | 10.5 | 24 |
| Penclawdd | 3,560 | 377 | 10.6 | 25 |
| Llansamlet | 11,488 | 1,247 | 10.9 | 26 |
| Tregŵyr | 4,778 | 529 | 11.1 | 27 |
| Penyrheol | 5,592 | 635 | 11.4 | 28 |
| Casllwchwr Isaf | 2,079 | 255 | 12.3 | 29 |
| Penllergaer | 2,337 | 322 | 13.8 | 30 |
| Pontybrenin | 3,966 | 581 | 14.7 | 31 |
| Llangyfelach | 4,214 | 631 | 15.0 | 32 |
| Casllwchwr Uchaf | 2,759 | 432 | 15.7 | 33 |
| Clydach | 7,064 | 1,116 | 15.8 | 34 |
| Pontardulais | 5,121 | 1,431 | 27.9 | 35 |
| Mawr | 1,747 | 625 | 35.8 | 36 |

*Ffynhonnell: Tabl Cyfrifiad 2001 KS025 - Gwybodaeth am y Gymraeg, Swyddfa Ystadegau Gwladol, © Hawlfraint y Goron.*

**Atodiad 2: Dim gwybodaeth am y Gymraeg fesul ward yn Abertawe yng Nghyfrifiad 2001** (o'r isaf i'r uchaf)

| **Cyfrifiad 2001: gwybodaeth am y Gymraeg** | **Pobl 3 oed ac yn hŷn** | **Dim gwybodaeth am y Gymraeg** | **Dim gwybodaeth am y Gymraeg** | **Safle (yn ôl %)** |
|---|---|---|---|---|
| **ENW'R WARD** | **Cyfrif** | **Cyfrif** | **Canran** | |
| Mawr | 1,747 | 764 | 43.7 | 1 |
| Pontardulais | 5,121 | 2,455 | 47.9 | 2 |
| Clydach | 7,064 | 4,366 | 61.8 | 3 |
| Casllwchwr Uchaf | 2,759 | 1,745 | 63.3 | 4 |
| Pontybrenin | 3,966 | 2,564 | 64.7 | 5 |
| Penclawdd | 3,560 | 2,392 | 67.2 | 6 |
| Penyrheol | 5,592 | 3,785 | 67.7 | 7 |
| Casllwchwr Isaf | 2,079 | 1,409 | 67.8 | 8 |
| Gorseinon | 3,146 | 2,146 | 68.2 | 9 |
| Llangyfelach | 4,214 | 2,882 | 68.4 | 10 |
| Penllergaer | 2,337 | 1,625 | 69.5 | 11 |
| Tregŵyr | 4,778 | 3,457 | 72.4 | 12 |
| Treforys | 16,192 | 12,070 | 74.5 | 13 |
| Llansamlet | 11,488 | 8,673 | 75.5 | 14 |
| Fairwood | 2,711 | 2,114 | 78.0 | 15 |
| Mynyddbach | 8,506 | 6,704 | 78.8 | 16 |
| Y Cocyd | 12,179 | 9,712 | 79.7 | 17 |
| Sgeti | 13,486 | 10,910 | 80.9 | 18 |
| Gŵyr | 3,554 | 2,890 | 81.3 | 19 |
| De Cilâ | 2,245 | 1,827 | 81.4 | 20 |
| Bonymaen | 6,114 | 4,981 | 81.5 | 21 |
| Newton | 3,091 | 2,519 | 81.5 | 22 |
| Llandeilo Ferwallt | 3,252 | 2,651 | 81.5 | 23 |
| Uplands | 13,069 | 10,661 | 81.6 | 24 |
| Mayals | 2,781 | 2,272 | 81.7 | 25 |
| Ystumllwynarth | 4,197 | 3,431 | 81.8 | 26 |
| Dyfnant | 4,540 | 3,738 | 82.3 | 27 |
| Pennard | 2,598 | 2,140 | 82.4 | 28 |
| Cwmbwrla | 7,923 | 6,561 | 82.8 | 29 |
| West Cross | 6,333 | 5,272 | 83.3 | 30 |
| Gogledd Cilâ | 3,358 | 2,813 | 83.8 | 31 |
| Glandŵr | 5,888 | 4,947 | 84.0 | 32 |
| Y Castell | 11,675 | 9,849 | 84.4 | 33 |
| Penderi | 10,459 | 8,967 | 85.7 | 34 |
| Townhill | 8,082 | 7,004 | 86.7 | 35 |
| St. Thomas | 6,142 | 5,348 | 87.1 | 36 |

*Ffynhonnell: Tabl Cyfrifiad 2001 KS025 - Gwybodaeth am y Gymraeg, Swyddfa Ystadegau Gwladol, © Hawlfraint y Goron.*

**Atodiad 3: Sgiliau iaith Gymraeg fesul ward yn Abertawe yng Nghyfrifiad 2011** (o'r isaf i'r uchaf)

| **Cyfrifiad 2011: sgiliau iaith Gymraeg** | **Yr holl breswylwyr arferol 3 oed ac yn hŷn** | **Gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg** | **Gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg** | **Safle (yn ôl %)** |
|---|---|---|---|---|
| **ENW'R WARD** | **Cyfrif** | **Cyfrif** | **Canran** | |
| Townhill | 8,215 | 300 | 3.7 | 1 |
| Glandŵr | 5,901 | 266 | 4.5 | 2 |
| De Cilâ | 2,185 | 101 | 4.6 | 3 |
| Cwmbwrla | 7,667 | 369 | 4.8 | 4 |
| St. Thomas | 6,937 | 336 | 4.8 | 5 |
| Dyfnant | 4,292 | 213 | 5.0 | 6 |
| Penderi | 11,476 | 577 | 5.0 | 7 |
| Y Castell | 15,504 | 819 | 5.3 | 8 |
| West Cross | 6,252 | 350 | 5.6 | 9 |
| Llandeilo Ferwallt | 3,190 | 189 | 5.9 | 10 |
| Bonymaen | 6,626 | 401 | 6.1 | 11 |
| Pennard | 2,617 | 175 | 6.7 | 12 |
| Gŵyr | 3,582 | 242 | 6.8 | 13 |
| Y Cocyd | 12,871 | 891 | 6.9 | 14 |
| Mynyddbach | 8,600 | 611 | 7.1 | 15 |
| Newton | 3,223 | 232 | 7.2 | 16 |
| Ystumllwynarth | 4,048 | 294 | 7.3 | 17 |
| Fairwood | 2,831 | 210 | 7.4 | 18 |
| Gogledd Cilâ | 3,422 | 253 | 7.4 | 19 |
| Sgeti | 14,015 | 1,132 | 8.1 | 20 |
| Treforys | 16,301 | 1,339 | 8.2 | 21 |
| Uplands | 15,375 | 1,264 | 8.2 | 22 |
| Gorseinon | 4,124 | 341 | 8.3 | 23 |
| Mayals | 2,624 | 229 | 8.7 | 24 |
| Penclawdd | 3,538 | 311 | 8.8 | 25 |
| Penyrheol | 5,378 | 488 | 9.1 | 26 |
| Tregŵyr | 5,054 | 482 | 9.5 | 27 |
| Llansamlet | 13,799 | 1,367 | 9.9 | 28 |
| Penllergaer | 2,750 | 280 | 10.2 | 29 |
| Casllwchwr Isaf | 2,279 | 245 | 10.8 | 30 |
| Casllwchwr Uchaf | 2,685 | 304 | 11.3 | 31 |
| Pontybrenin | 3,904 | 474 | 12.1 | 32 |
| Llangyfelach | 4,831 | 629 | 13.0 | 33 |
| Clydach | 7,221 | 1,034 | 14.3 | 34 |
| Pontardulais | 6,047 | 1,361 | 22.5 | 35 |
| Mawr | 1,791 | 525 | 29.3 | 36 |

*Ffynhonnell: Tabl Cyfrifiad 2011 KS207WA - sgiliau iaith Gymraeg. Swyddfa Ystadegau Gwladol, © Hawlfraint y Goron.*

**Atodiad 4: Dim sgiliau iaith Gymraeg fesul ward yn Abertawe yng Nghyfrifiad 2011** (o'r isaf i'r uchaf)

| **Cyfrifiad 2011: sgiliau iaith Gymraeg** | **Yr holl breswylwyr arferol 3 oed ac yn hŷn** | **Dim sgiliau iaith Gymraeg** | **Dim sgiliau iaith Gymraeg** | **Safle (yn ôl %)** |
|---|---|---|---|---|
| **ENW'R WARD** | **Cyfrif** | **Cyfrif** | **Canran** | |
| Mawr | 1,791 | 858 | 47.9 | 1 |
| Pontardulais | 6,047 | 3,291 | 54.4 | 2 |
| Clydach | 7,221 | 4,869 | 67.4 | 3 |
| Casllwchwr Uchaf | 2,685 | 1,877 | 69.9 | 4 |
| Pontybrenin | 3,904 | 2,740 | 70.2 | 5 |
| Penclawdd | 3,538 | 2,568 | 72.6 | 6 |
| Penyrheol | 5,378 | 3,920 | 72.9 | 7 |
| Llangyfelach | 4,831 | 3,541 | 73.3 | 8 |
| Casllwchwr Isaf | 2,279 | 1,717 | 75.3 | 9 |
| Penllergaer | 2,750 | 2,088 | 75.9 | 10 |
| Gorseinon | 4,124 | 3,134 | 76.0 | 11 |
| Tregŵyr | 5,054 | 3,877 | 76.7 | 12 |
| Llansamlet | 13,799 | 10,737 | 77.8 | 13 |
| Treforys | 16,301 | 12,975 | 79.6 | 14 |
| Mayals | 2,624 | 2,100 | 80.0 | 15 |
| Fairwood | 2,831 | 2,310 | 81.6 | 16 |
| Ystumllwynarth | 4,048 | 3,307 | 81.7 | 17 |
| Sgeti | 14,015 | 11,492 | 82.0 | 18 |
| Gŵyr | 3,582 | 2,953 | 82.4 | 19 |
| Mynyddbach | 8,600 | 7,099 | 82.5 | 20 |
| Y Cocyd | 12,871 | 10,630 | 82.6 | 21 |
| Uplands | 15,375 | 12,736 | 82.8 | 22 |
| Pennard | 2,617 | 2,175 | 83.1 | 23 |
| Llandeilo Ferwallt | 3,190 | 2,654 | 83.2 | 24 |
| Newton | 3,223 | 2,684 | 83.3 | 25 |
| Gogledd Cilâ | 3,422 | 2,879 | 84.1 | 26 |
| Bonymaen | 6,626 | 5,600 | 84.5 | 27 |
| De Cilâ | 2,185 | 1,851 | 84.7 | 28 |
| West Cross | 6,252 | 5,295 | 84.7 | 29 |
| Dyfnant | 4,292 | 3,670 | 85.5 | 30 |
| Cwmbwrla | 7,667 | 6,628 | 86.4 | 31 |
| Y Castell | 15,504 | 13,521 | 87.2 | 32 |
| Penderi | 11,476 | 10,034 | 87.4 | 33 |
| St. Thomas | 6,937 | 6,105 | 88.0 | 34 |
| Glandŵr | 5,901 | 5,226 | 88.6 | 35 |
| Townhill | 8,215 | 7,355 | 89.5 | 36 |

*Ffynhonnell: Tabl Cyfrifiad 2011 KS207WA - sgiliau iaith Gymraeg. Swyddfa Ystadegau Gwladol, © Hawlfraint y Goron.*